Migldi Magldi
Mot a'r Gwningen
O Felly'n Wir
O Lili Wen Fach
Boneddwr Mawr o'r Bala
Llwyn On

*Gwersi Crefyddol*

Bedyddio'r Iesu
Y Claf o'r Parlys
Iachau Gwas y Canwriad
Yr Heuwr
Y Ddafad Golledig
Y Mab Afradlon
Yr Ebol Asyn Bach Gwyn
Iesu'n marchogaeth i Ierwsalem
Iesu yn y Deml
Iesu o flaen Caiaphas, Peilat a Herod
Y Croeshoeliad
Yr Atgyfodiad

Ar Fawrth yr ail ar bymtheg, cynhaliwyd arholiadau er mwyn dosbarthu'r ddau blentyn a fyddai'n mynd i Ysgol Llanbed ym mis Medi. Gwnaeth y ddau yn ganmoladwy ar ôl gweithio'n ddyfal drwy'r tymor. Ni chafwyd yr un diwrnod o wyliau achlysurol. Ar Fawrth yr ugeinfed, caewyd yr ysgol am Wyliau'r Pasg. Ni wyddai neb i sicrwydd, y pryd hwnnw, mai dim ond un tymor ychwanegol oedd yn aros yn hanes yr ysgol.

Dechreuodd Tymor yr Haf ar y trydydd ar ddeg o Ebrill, gyda'r pedwar disgybl yn bresennol. Wedi cael pythefnos o wyliau, 'roedd pob un yn barod i hogi'i gryman unwaith eto. Dechreuwyd ar y gwaith o ddifri, a phob plentyn yn cael sylw unigol. Gyda dyfodiad y gwanwyn, a'r haf wrth y drws, 'roedd presenoldeb y plant yn foddhaol dros ben. Ymwelodd Dr. D. M. Williams, Arolygwr y Weinyddiaeth Addysg â'r ysgol ar yr ail ddiwrnod o'r tymor.

Cymerwyd testunau amserol fel sail i'r Gwersi Natur, a theg yw cofnodi rhestr o waith y tymor olaf hwn:

*Gwersi Natur*

Y Gwcw
Dant y Llew
Y Llyffant a'r Broga
Cneifio
Y Dylluan
Iâr Fach yr Haf
Y Cynhaeaf Gwair
Ar Lan y Môr
Y Gwenyn

*Daearyddiaeth*

Sir Gaerfyrddin
Cymru
Un o Blant y Gwledydd Pell—
    Ahmad o'r Affrig

*Hanes*

Mari Jones a'i Beibl
Y Norman yn y Gogledd—
    Gruffydd ap Cynan
Y Norman yn y De
    Yr Arglwydd Rhys
Gerallt Gymro
Llywelyn, ein Llyw Olaf

*Barddoniaeth*

Lwc (D. Lloyd Jenkins)
Oen Bach (Thomas Jones)
Mai (Eifion Wyn)
Siôn a Siân (T. Llew Jones)
Cneifio (D. Lloyd Jenkins)
I Löyn Byw (J. T. Jones)
Lle Bach Tlws (T. Gwynn Jones)
Ar Lan y Môr (D. Lloyd Jenkins)

*Caneuon*

Y Gwcw Fach
Me, Me, Ddafad Ddu
Hen Fenyw Fach Cydweli
A oes Ardal yn debyg i Gymru?
Pant Corlan yr Ŵyn
Tŷ a Gardd
Iâr Fach yr Haf
Ar y Gwair
Dewch am dro i Lan y Môr

*Gwersi Crefyddol*

Y Dryll Arian
Y Deng Morwyn
Tawelu'r Ystorm
Y Ffigysbren Ddiffrwyth
Porthi'r Pum Mil
Y Bregeth ar y Mynydd
Hanes Sacheus
Hanes Samson
Y Tri Llanc

Cafwyd stori gyfres unwaith eto, sef *Ynys y Trysor* gan R. Lloyd Jones. Nid oedd hon mor dderbyniol ag ambell stori. Efallai ei bod yn rhy anturus i blant Ysgol Gynradd. Collwyd rhai dagrau wrth wrando ar gymalau ohoni.

Bu'r ysgol ar gau ar y trydydd ar ddeg o Fai—dydd Cymanfa Ganu Flynyddol yr Annibynwyr yn Soar, Llanbed. Cafwyd wythnos o Wyliau'r Sulgwyn hefyd tua diwedd Mai. Pan ailagorwyd ar y pumed ar hugain o Fai, derbyniwyd disgybl newydd, sef Llinos Jones, Lango. Aeth y rhif i fyny i bump, er syndod i bawb. Bu Mair Williams, Tyllwyd yn mynychu'r ysgol hefyd am gyfnod byr. Eithr, cyn pen mis, collwyd un disgybl. Ymadawodd Danny Davies, Rhydfallen Ganol. Symudodd y teulu o'r ardal.

Pan gaewyd yr ysgol am Wyliau'r Haf, sef cau'r drws am y tro olaf, dyma enwau ac oed y plant a oedd yno:

Ann Herbert,—11 oed
Hefin Price,—11 oed
Margaret Jones,—10 oed
Llinos Jones,—4 oed



Y Plant a'r Athrawes


Blwyddyn ddiddorol a chofiadwy a fu honno mewn mwy nag un ystyr. 'Roedd y gweithgareddau'n amrywiol, gan gynnwys gwersi beunyddiol yn y tri phwnc sylfaenol. Nid llyfrbryf mo un o'r plant chwaith. Ceid amser i ganu'n gyson a gwersi mewn Gwniadwaith, Celf a Chrefft ac Ymarfer Corff.

Er bod nifer y plant yn dra isel, ni theimlai neb yn unig. 'Roedd yno ymwelwyr dyddiol. Bob bore, bron yn ddieithriad, galwai'r postman, gan estyn ei becyn o lythyron. Ambell waith, deuai â newyddion da,—bryd arall newydd trist. Ni chymerai fawr o amser i drosglwyddo'r llythyron a'i gyfarchion. 'Roedd ganddo daith bell o'i flaen. Am ddeuddeg o'r gloch, deuai Mr. Daniel James â chinio o Lansawel. Edrychai'r plant ymlaen yn eiddgar am ei ddyfodiad. Parod oedd y plant hynaf i'w gynorthwyo i gario pob cynhwysydd o gefn y car. 'Roedd yn ŵr urddasol a gwerthfawrogai bob cymorth am fod popeth yn drwm.

Galwai Nyrs Angel unwaith y mis. Teithiai o Abergorlech. Cadwai olwg manwl ar bob plentyn. Pe byddai rhywbeth yn poeni ambell un, rhoddai gyngor neu anogaeth i ymweld â'r meddyg. 'Roedd y Nyrs ymhlith yr ymwelwyr mwyaf derbyniol. Galwai swyddogion y Pwyllgor a'r Weinyddiaeth Addysg yn gyson hefyd. Cyfrifid Miss M. M. Jenkins, H.M.I. fel un o'n cyfeillion mwyaf mynwesol. Hoffai pawb ei gweld yn galw. Cymerai ddiddordeb eithriadol ym mhob plentyn gan roi cefnogaeth a symbyliad ynglŷn â'r gwaith addysgol bob amser. Buddiol iawn oedd ei hymweliadau.

Er bod Ysgol Esgerdawe yng nghanol y wlad ac yn weddol anghysbell, ceid llawer o drafnidiaeth yno. Ar ddiwrnod marchnad Llanbed, clywid y ffermwyr yn gyrru heibio o un i un. Gwelid gwên ar wyneb plentyn ambell waith pan adwaenai sŵn modur ei dad yn tynnu i fyny'r rhiw. Pwy a ŵyr beth a âi drwy ei feddwl? Efallai mai gobaith am gael rhywbeth arbennig o'r dref y noson honno, neu greadur newydd o'r farchnad. Na, nid oedd unigrwydd yn blino neb yr adeg honno. Erbyn heddiw, mae'r pentref ei hun mor dawel â'r bedd, ar wahân i'r drafnidiaeth. 'Does neb yn tywyllu drws yr hen ysgol, neb yn y Tŷ Capel a dim ond rhywrai dros dro ym Mryneithin. Ceir ychydig mwy o fywyd yno ar y Sul, pan â'r ffyddloniaid i'r Capel.

Ie, tra gwahanol yw popeth yno heddiw o'i gymharu â'r amser pan oedd yr ysgol yn anterth ei thwf. 'Roedd yr ysgol yn ganolfan i'r ardal a hyfryd oedd clywed sŵn y plant yn tyrru yno



Mr. H. J. Hughes, Rheolwr olaf yr ysgol,
yn cyflwyno tysteb i M. E. Williams ym 1959



M. E. Williams yn cydnabod yr ardalwyr am eu caredigrwydd



Rhai o'r ardalwyr a oedd yn bresennol ar noson cyflwyno'r dysteb i'r brifathrawes olaf

o bob cyfeiriad. Ni chafwyd cludiad swyddogol erioed. Cerddai pob plentyn, ar wahân i ddiwrnod garw pan gludai'r rhieni rai ohonynt.

Ar y trydydd ar hugain o Orffennaf, 1959, daeth pennod ddiddorol a phwysig i ben. Wedi'r diwrnod hwnnw, ni welwyd plentyn nac athro, ar droed nac mewn car, yn cyrchu at yr adeilad annwyl i ymwneud â gwaith addysgol. Y deiliaid allanol yw'r chwyn, y drain a'r mieri. Tu mewn, y pry cop, y clêr a'r dwst yw'r tenantiaid. Tybed a ddaw rhywun i'w symud?

## DIWEDDGLO

Wrth derfynu'r hanes hwn, gresyn na fyddai'n bosibl cofnodi faint o blant a aeth drwy'r ysgol o'r cychwyn ym 1877 hyd ei chau ym 1959. Ysywaeth, aeth y Cofrestri Derbyn a'r Cofrestri Presenoldeb ar goll. Felly, ni ellir rhoi unrhyw amcan o'r nifer

ond tybir bod rhai cannoedd wedi derbyn eu haddysg fore yn yr ysgol hon. Er hynny, er mwyn diddordeb, gellir cofnodi enwau cartrefi'r ardal, gan gynnwys y rhai sydd wedi syrthio. Credir bod plant o'r rhan fwyaf ohonynt wedi mynychu'r ysgol.

Alltfydir Uchaf
Alltfydir Isaf
Arddlas
Bennoeth
Betty Gate
Betty Gate Draw
Blaenddol
Bryndafydd Uchaf
Bryndafydd Isaf
Bryndifyr
Bryneithin
Brynllefrith
Brynyrysgol
Bwlchnewydd
Byrgwm
Caemawr
Cwmcanol
Cwmdawe
Cwmrewig
Cwmtrebeddau
Dildre
Esgerdawe Farm
Esgerwen
Felingwm
Felin Maesteile
Fron
Gelliwhimpen
Glantawe
Glynbyr
Groes

Llwyncelyn
Llwynowen
Maesygwiail Fawr
Maesygwiail Fach
Maesteile
Maestroyddin
Maesyrhenarth
Nant Orfa
New Gate Cottage
Pannau Gleision
Pandy
Panteg
Pantglas
Pantycelyn
Pantyfedwen
Pantyfyd Fach
Pantyfyd Isaf
Penbompren
Penllain
Penrhiw
Penrhiw Fawr
Pistyllgwyn Bach
Pyllau
Rhydfallen Fach
Rhydfallen Ganol
Rhydfallen Isaf
Rhydlydan
Rhydlydan Lodge
Storom
Tancoed

| | |
|---|---|
| Gwarcoed | Tanffordd |
| Hendrelas | Tredomen |
| HenDŷ Cwrdd | Trefenty |
| Keeper's Lodge | Troedyrhiw |
| Lacs | Tŷ'r Capel |
| Lango | Tŷ Llwyd |
| Llety'r Wennol | Tŷ Mati |
| Llundain | Tŷ'n'grug |

Marciwyd degau o Gofrestri ac ysgrifennwyd miloedd o eiriau ar ddesg uchel a ddefnyddid gan y prifathrawon. Yn y cyfnod cynnar, ceid stôl dal yn ogystal. Beth bynnag, aeth oes honno i ben, a chan fod cadair gyffredin yn rhy isel, aros ar eu traed a wnâi'r athrawon pan ddefnyddient y ddesg. Ynddi cedwid y Cofrestri, y Llyfrau Cofnodion, y Llyfrau Cosb ac amryw o bethau pwysig, gan gynnwys y gansen. Defnyddid llai o hon gyda threigliad y blynyddoedd. Ynddi hefyd y cedwid yr arian cinio ac nid gwiw i neb ei hagor ond yr athrawon. Dyma'r unig ddodrefnyn yn yr ysgol y gwaherddid y plant i'w agor. Desg y prifathro ydoedd. Yma y cedwid y pethau cyfrinachol. Rhaid oedd ei chloi'n ofalus ar ddiwedd pob prynhawn. Nid oedd yn ddiogel rhag tân chwaith, ond daliodd i gyflawni ei dibenion hyd y diwedd.

Wedi cau'r ysgol, daeth tristwch i'r ardal. Collwyd y ganolfan addysg. Symudwyd y plant i ysgolion y cylch, gyda'r canlyniad iddynt golli diddordeb yn eu pentref, a cholli'r cysylltiad agos â'u hardal enedigol. Fel y dywedodd un o'r Arolygwyr, mae rhywbeth hyfryd yn perthyn i'r teulu bach hapus a geir mewn ysgol fechan, wledig.

Parod iawn yw'r rhai a fu'n mynychu Ysgol Esgerdawe i dalu teyrnged uchel iddi, am addysg dda ym more oes. Yno hefyd y profwyd y direidi diniwed hwnnw yng nghymdeithas ddifyr cyfoedion—y cyfan yn baratoad ar gyfer taith bywyd. Crwydrodd y cyn ddisgyblion i bedwar ban y byd i ddilyn gwahanol alwedigaethau,—offeiriaid, athrawon, nyrsys, cyfarwyddwyr a Swyddogion mewn gwahanol feysydd, crefftwyr ac amaethwyr.

Os ciliodd y plant a'r athrawon erys yr hen gloch a fu gynt yn galw'n gyson ac yn atseinio drwy'r fro, ond aros yn llonydd a wna hithau. "Rhoddwyd pob ffidil yn y to."

Mae cloch yr ysgol heddiw'n fud,
'Does neb i'w alw mwyach
A sŵn y plant wrth chwarae'n llon
Sydd megis atgof bellach.

Ni chlywir neb yn yngan gair,
Na neb yn prysur rifo,
Dim nodyn cân na Salm a geir,
Dim tynnu llun na gwnïo.

Teimladau cynnes a di-gŵyn
Sydd gan y cyn-ddisgyblion,
Am addysg dda ym more oes
Fe roddwn ddiolch calon.

O, na chawn weled dydd yn dod
I'r drws gael agor eilwaith,
A phlant y fro yn dod ynghyd
I'r fangre hyfryd odiaeth.

M. E. W.

## RHESTR O'R TANYSGRIFWYR
(Diolch yn fawr am bob cyfraniad)

| | £ |
|---|---|
| Parch. E. Tawe Jones, Hen Ficerdy, Eglwysilan | 7.00 |
| Mr. John Thomas, 24, Heol Alan, Llandeilo | 4.00 |
| Mr. a Mrs. D. L. Jones, Blaengofiarth, Esgerdawe | 7.00 |
| Parch. J. S. Jones, Ficerdy, Llanllwni | 3.50 |
| Mrs. Nansi Jones, Hill Crest, Tymbl | 3.50 |
| Miss Leisa Jones, Trewen, Pencader | 3.50 |
| Mrs. Rachel Jones, Fronlwyd, Pencader | 3.50 |
| Mrs. Llinos Davies, Llwynfedw, Llanybydder | 3.50 |
| Mr. a Mrs. T. J. Davies, Esgerwen, Rhydcymerau | 7.00 |
| Miss Olwen Davies, Maestyle, Rhydcymerau | 7.00 |
| Mrs. L. M. Hughes, Garthowen, Llanbed | 3.50 |
| Mr. E. Emyr Hughes, Ras Tanura, Saudi Arabia | 3.50 |
| Mrs. Enid Jones, Wenallt, Pontyberem | 3.50 |
| Miss Delyth Hughes, Thorton Heath, Surrey | 3.50 |
| Mrs. Winifred Isaacs, 9, Gors Road, Penllergaer | 3.50 |
| Mrs. M. A. George, Bryndafydd, Esgerdawe | 3.50 |
| Mrs. Nancy Harries, Heol Parcmaen, Caerfyrddin | 3.50 |
| Mr. E. J. George, Bryndafydd, Esgerdawe | 3.50 |
| Mr. W. J. George, Oslo, Norwy | 3.50 |
| Mrs. Agnes Williams, Brynawelon, Rhydcymerau | 14.00 |
| Mrs. Cynthia Davies, 22 Brynteg, Caerfyrddin | 3.50 |
| Miss Ann George, Bryndafydd, Esgerdawe | 3.50 |
| Mri. J. O. a T. I. Jones, Cwmdawe, Esgerdawe | 3.50 |
| Mr. T. J. Jones, 27, Brodawel, Llanwrda | 3.50 |
| Mr. Ivor Hughes, Pyllau, Esgerdawe | 3.50 |
| Teulu Conway, Daventry (Kirby Grounds gynt) | 30.00 |
| Mr. A. L. Jones, Teify Castle, Cwmann | 5.00 |
| Mr. J. T. Morris, Pantyfyd, Esgerdawe | 5.00 |
| Mrs. M. E. Roberts, Awelfor, Cwmann | 3.50 |
| Teulu Caemawr, Esgerdawe | 3.50 |
| Mrs. Eirlys Thomas, Awelfa, Llanybydder | 3.50 |
| Mrs. Mair Davies, Gwastod Iago, Llanybydder | 3.50 |
| Mr. Eben Davies, Ordawe, Llanybydder | 3.50 |
| Mrs. H. M. James, 16, Heol y Gaer, Llanybydder | 3.50 |
| Mrs. S. M. Harries, Tynewydd, Farmers | 3.50 |
| Mrs. M. E. Donovan, 12 Peterwell Terrace, Llanbed | 3.50 |
| Mrs. Patricia Holding, 22, Salisbury Road, Durham City | 5.00 |
| Mrs. S. M. Jones, Felindre Uchaf, Cwmann | 3.50 |

| | |
|---|---|
| Mrs. Beryl Jones, Gwastod, Abermeurig | 3.50 |
| Mrs. Lizzie Davies, 44, Trem y Môr, Penybont-ar-Ogwr | 10.50 |
| Mr. D. Rees Davies, Llwynhowell, Llanymddyfri | 3.50 |
| Mr. Gwynfor Davies, 108, Heol y Bedw, Cwmrhydyceirw | 3.50 |
| Mrs. Tegwen Davies, Cwmrhyddan, Llanymddyfri | 3.50 |
| Mrs. Eirlys Land, Baileyrhyn, Myddfai | 3.50 |
| Mrs. Blodwen Price, Islwyn, Cwmann | 3.50 |
| Mr. Howard Davies, Rhydlydan Lodge, Pumsaint | 3.50 |
| Misses Mary (M) a Margaret Lloyd, 3, Cwmann Terr. Cwmann | 3.50 |
| Mr. Owen Davies, Mynachdy, Nantgaredig | 3.50 |
| Mrs. Beti Evans, Plasgogerddan Lodge, Aberystwyth | 5.00 |
| Mrs. May Davies, Brynhyfryd, Aberystwyth | 5.00 |
| Mrs. Nansi James, Emlyn Cottage, Cwmann | 5.00 |
| Mr. Tom Morgan, 20, Bryn y Môr, Aberaeron | 3.50 |
| Mr. Will Morgan, Glasbant, Drefach, Llanybydder | 3.50 |
| Mr. Evan Morgan, Maesydderwen, Llansawel | 3.50 |
| Mri. Gwyn ac Andrew Morgan, Cwmtrebeddau, Cwmann | 3.50 |
| Mrs. Celia Evans, Maesllwyd, Cribyn | 3.50 |
| Mr. Michael Shannon, Pannau, Esgerdawe | 3.50 |
| Mrs. Cecilia Evans, Llundain, Esgerdawe | 7.00 |
| Mrs. Betty Davies, Rhydybont, Bronwydd, Caerfyrddin | 6.00 |
| Mrs. Dilys Reynolds, Llainwen, Saron, Llandysul | 3.50 |
| Mri. Martin a Tommy Davies, Blaenpant, Llanpumsaint | 3.50 |
| Mr. Danny Davies, Isfryn, Llanpumsaint | 3.50 |
| Miss Bessie Morgan, 2, Trewern, Saron, Llandysul | 3.50 |
| Mrs. H. Jones, Rhydfallen Isaf, Esgerdawe | 3.50 |
| Mrs. Glenys Thomas, Avondale, Llanybydder | 3.50 |
| Mr. John Jones, Penrhyn, Bro-Duar, Llanybydder | 3.50 |
| Mrs. Nancy Evans, 32, Swansea Road, Gorseinon | 3.50 |
| Mrs. Margaret Griffiths, Tower Cottage, Llanybydder | 3.50 |
| Mrs. Dilys Thomas, 163, Heol Whitchurch, Caerdydd | 10.00 |
| Mrs. Beti Owen, Plas Penglais, Aberystwyth | 10.00 |
| Mr. Ernest E. Randell, Hendrelas, Cwmann | 3.50 |
| Mr. E. T. Jones, Gwalia, Cwmann | 3.50 |
| Mrs. M. M. Jones, Gorwel, Llanbed | 3.50 |
| Mrs. Margaret Evans, Treglog, Llansawel | 5.00 |
| Mrs. M. M. R. Herbert, Gwarcoed, Esgerdawe | 3.50 |
| Miss Marion P. Reeves, 91, Lôn Tirydail, Rhydaman | 17.00 |
| Miss M. Gwen Davies, 5, Heol Wernoleu, Rhydaman | 5.00 |
| Miss E. A. Davies, 68, Iscennen Road, Rhydaman | 5.00 |
| Mrs. Glenys Jones, Sŵn-y-Nant, Rhydcymerau | 3.50 |

| | |
|---|---|
| Miss S. Gwladys Evans, 45, Bro Einon, Llanybydder | 14.00 |
| Miss M. Rowena Fowler, 70, Colonel Road, Betws | 3.50 |
| Mr. J. Handel Evans, Dyffryn, Llanbed | 3.50 |
| Mrs. Ann Thomas, Rheithordy, Trefor, Caernarfon | 3.50 |
| Mr. David M. Evans, 65, Archer House, Battersea | 3.50 |
| Mrs. Gwyneth Evans, Tanygraig, Silian | 3.50 |
| Mr. John V. Jones, Whitmill Hill, Daventry | 3.50 |
| Mr. Dennis M. Evans, Glyncoed, Llanybydder | 3.50 |
| Dr. J. Ll. Williams, Gerllan, Llanbed | 3.50 |
| Mr. J. D. Williams, Plasybryn, Llanbed | 5.00 |
| Mrs. R. A. Jones, Fairfield, Llanbed | 3.50 |
| Mrs. Nance Thomas, Delville, Llandeilo | 17.50 |
| Miss Annie Evans, Bryndeilo, Nantgaredig | 3.50 |
| Mrs. Annie Thomas, Pistyll South, Llanfynydd | 3.50 |
| Mrs. Elizabeth Thomas, Cwmcochied, Talyllychau | 5.00 |
| Mrs. Margaret Davies, Llwynbwch, Llansadwrn | 4.00 |
| Mr. a Mrs. E. L. Evans, Parcyrhos, Llansawel | 3.50 |
| Parch. S. Idris Evans, Brynhawen, Henllan, Llandysul | 5.00 |
| Mr. a Mrs. Terwyn George, Crud-yr-Awel, Llansawel | 3.50 |
| Mrs. S. George, Pantiauau, Llansawel | 3.50 |
| Mr. a Mrs. Glyn George, Awelfryn, Alltyblaca | 3.50 |
| Mrs. Annie Morgan, Maesycoed, Llansawel | 3.50 |
| Mrs. M. E. Maddocks, Cwmllynfell | 3.50 |
| Mrs. Eiddwen Griffiths, Pistyllgwyn, Llansawel | 3.50 |
| Mrs. Rhiannon Rogers, Frondeg, Llansawel | 3.50 |
| Mrs. Eleri Davies, Cothi Vale, Llansawel | 3.50 |
| Mrs. Siân George, Eryl, Llansawel | 3.50 |
| Mr. W. G. Morgan, Llwynfallen, Talyllychau | 3.50 |
| Mr. T. V. Jones, Llystroiddyn, Llanbed | 3.50 |
| Mrs. Eluned Ingram, 2, Spring Terr., Llansawel | 3.50 |
| Mr. Tommy Williams, Dewi House, Llanddewi Brefi | 3.50 |
| Mr. Brenig Williams, Tanyresger, Farmers | 5.00 |
| Mr. Glyn Williams, Tangaer, Cellan | 3.50 |
| Mrs. Shân Lewis, Cnwcdeilog, Llanymddyfri | 3.50 |
| Mrs. Ray Owen, Perthneuadd, Talsarn | 3.50 |
| Mr. a Mrs. Glyn Davies, Penbont, Llanddewi Brefi | 5.00 |
| Miss W. C. Davies, 1, Rose Terrace, Tregaron | 3.50 |
| Mrs. W. C. Lloyd Jones, Monarch, Tregaron | 3.50 |
| Parch. T. Eynon Jones, Preswylfa, Llanwrda | 3.50 |
| Mr. D. T. Evans, Llyshelen, Cwmann | 3.50 |
| Mr. E. W. Evans, Fferm Felinfach, Cwmann | 3.50 |
| Mr. D. Evans, 96, Thurleigh Road, Llundain | 3.50 |

| | |
|---|---|
| Mr. T. Goronwy Phillips, Trefin, Llanbed | 3.50 |
| Ysgol Coedmor, Cwmann | 3.50 |
| Miss Gwenda Thomas, Tegfan, Cwmann | 3.50 |
| Mrs. A. M. Thomas, Claret House, Pencarreg | 3.50 |
| Mr. Endaf Morgan, Derwendeg, Cwmann | 3.50 |
| Mr. a Mrs. J. Evans, Penarth, Llanbed | 3.50 |
| Mr. W. J. James, Bryn Dewi, Llanbed | 7.00 |
| Mr. Edwin Jones, Angorfa, Llanbed | 3.50 |
| Mrs. H. Davies, 12, Bryn-yr-Eglwys, Llanbed | 3.50 |
| Mr. Vincent Evans, Yr Hen Reithordy, Llanbed | 3.50 |
| Miss Eiddwen James, Min-y-Coed, Llanbed | 3.50 |
| Mr. E. Jones, Bronwydd, Llanbed | 5.00 |
| Mrs. Eryl Jones, Gerlan, Llanbed | 3.50 |
| Mrs. M. Jones, Blaenwaun-Ganol, Llanwnnen | 3.50 |
| Miss Mary H. Evans, Dolau-Merau, Llanbed | 1.00 |
| Parch. T. Glenville Rees, Glennydd, Llansawel | 5.00 |
| Parch. David Williams, Bargates, Borth | 3.50 |
| Mr. Islwyn Davies, Llygadyrych, Llansawel | 3.50 |
| Mr. J. Thomas, Beili Ficer, Llansawel | 3.50 |
| Mr. a Mrs. D. Davies, 1, Trehelyg, Llansawel | 3.50 |
| Mr. a Mrs. A. Davies, Y Felin, Llansawel | 3.50 |
| Mrs. M. L. Williams, Y Bwthyn, Llansawel | 3.50 |
| Mrs. R. B. Williams, Llyscerdd, Llansawel | 3.50 |
| Mrs. Davies, Nantgwinau, Crugybar | 3.50 |
| Mr. J. D. Williams, Maes Teg, Llansawel | 3.50 |
| Mr. a Mrs. B. Thomas, Rhydygan, Llansawel | 3.50 |
| Mr. D. G. Jones, Eirlyn, Llansawel | 3.50 |
| Mrs. B. Davies, Blaenresgair, Llansawel | 3.50 |
| Mrs. J. B. Phillips, Tŷ'r Ysgol, Brechfa | 3.50 |
| Mrs. E. A. C. Williams, Ysgol Abergorlech | 3.50 |
| Mrs. M. C. Thomas, Awelon, Abergorlech | 3.50 |
| Mr. a Mrs. E. Thomas, Pandy, Abergorlech | 3.50 |
| Mrs. N. Evans, Trebwl, Abergorlech | 3.50 |
| Mrs. Doreen Sisto, Esgair Villa, Abergorlech | 3.50 |
| Mrs. M. Thomas, Glynbyr, Rhydcymerau | 3.50 |
| Parch. Howell Evans, Y Mans, Pumsaint | 3.50 |
| Mrs. D. M. Morgans, Wenallt House, Rhydcymerau | 3.50 |
| Mr. a Mrs. A. Jones, Bryniau Uchaf, Rhydcymerau | 3.50 |
| Miss Joan Lloyd, Dolau Uchaf, Rhydcymerau | 3.50 |
| Mrs. Beti Jones, Dolau Isaf, Rhydcymerau | 3.50 |
| Miss Meiriona Thomas, Llethr-Bledrig, Rhydcymerau | 3.50 |
| Mrs. Elin Earle, Arfryn, Rhydcymerau | 3.50 |

| | |
|---|---|
| Mrs. Megan Davies, Esgerliving, Rhydcymerau | 3.50 |
| Mrs. I. Jones, Penybanc, Rhydcymerau | 3.50 |
| Cyng. E. Jones, Pwllcynbyd, Rhydcymerau | 3.50 |
| Mr. Idwal Richards, Waun Fforest, Rhydcymerau | 3.50 |
| Mrs. Elsie M. Jones, Y Wenallt, Llanybydder | 3.50 |
| Mrs. J. R. Jones, Highlandale, Llanybydder | 3.50 |
| Mr. Albert Evans, Banc Nat. West. Llanybydder | 5.00 |
| Mr. Oriel Jones, Duar Villa, Llanybydder | 3.50 |
| Parch. a Mrs. T. Glenfil Jones, 87, Tanygaer, Llanybydder | 5.00 |
| Mrs. S. M. Davies, Brynrhosyn, Llanybydder | 3.50 |
| Mrs. Lewis Jones, Hafod y Coed, Llanybydder | 3.50 |
| Mrs. M. L. Parry-Jones, Bryn Merau, Llanybydder | 3.50 |
| Mr. a Mrs. R. Lewis, Dolgwm Stores, Llanybydder | 3.50 |
| Parch. Eirian Lewis, Y Mans, Mynachlogddu | 3.50 |
| Mrs. R. D. Evans, The Willows, Llanybydder | 3.50 |
| Mr. a Mrs. J. B. Thomas, Hafod, Llanybydder | 3.50 |
| Mrs. M. Griffiths, Penrhiw, Llanybydder | 3.50 |
| Mr. Ronald Thomas, Gelliwern, Llanybydder | 3.50 |
| Mrs. B. Davies, Rhydybont Garage, Llanybydder | 3.50 |
| Mr. a Mrs. B. Rees, Myrddin House, Llanybydder | 3.50 |
| Mr. J. M. Morgans, Pantyfedwen, Llanybydder | 3.50 |
| Mrs. B. Jenkins, Haulfryn, Drefach, Llanybydder | 3.50 |
| Mrs. Sarah O. Howells, Garth Villa, Drefach | 3.50 |
| Miss A. E. Bowen, Glynfaes, Drefach | 3.50 |
| Miss L. Vera Jones, Hafan Deg, Llanfihangel-ar-Arth | 5.00 |
| Miss Eluned Evans, Penrhiw, Llanllwni | 5.00 |
| Miss Gwyneth Thomas, Bonton, Llanllwni | 3.50 |
| Mr. G. Ll. Evans, 2, Bro Rhydybont, Llanybydder | 3.50 |
| Mrs. Walker, 43, Heol-y-Gaer, Llanybydder | 1.00 |
| Mrs. M. M. Davies, Cilcennen, Llandeilo | 3.50 |
| Mrs. H. E. Bowen, Magbell, Caerfyrddin | 3.50 |
| Miss Eiry Williams, Heol Parcmaen, Caerfyrddin | 7.00 |
| Mrs. May Jones, Gellifaharen, Llandysul | 5.00 |
| Mrs. Ann Thomas, Milford, Cwrtnewydd | 3.50 |
| Mr. T. Islwyn Walters, Maes-y-Deri, Ffaldybrenin | 7.00 |
| Mr. a Mrs. J. H. Davies, Glantwrch, Pumsaint | 3.50 |
| Mrs. Ivor Davies, Derwendeg, Crugybar | 3.50 |
| Mr. Oswald Davies, Abersalfach, Nantgaredig | 3.50 |
| Mrs. M. J. Humphries, Onnen Fawr, Capel Isaac | 3.50 |
| Mrs. S. Humphries-Jones, Frongelli, Alltyblaca | 3.50 |
| Mr. D. P. Jones, Dorlan, Alltyblaca | 3.50 |

| | |
|---|---|
| Mrs. A. M. Williams, Brynteifi, Alltyblaca | 3.50 |
| Mr. a Mrs. D. T. Jones, Penrallt Newydd, Alltyblaca | 3.50 |
| Mr. D. M. Rees, Brynderw, Alltyblaca | 3.50 |
| Mr. a Mrs. H. Davies, Ffoshelyg, Alltyblaca | 3.50 |
| Mr. J. E. Evans, Cartref, Alltyblaca | 3.50 |
| Mrs. A. L. Davies, Y Mans, Alltyblaca | 3.50 |
| Mr. J. Jones, Dorset, Alltyblaca | 3.50 |
| Mr. W. G. Evans, Brynarwel, Alltyblaca | 3.50 |
| Mr. Gwilym Price, Brynderi, Cwmann | 3.50 |
| Mrs. Ann Jones, The Ram Inn, Cwmann | 5.00 |
| Mrs. E. Davies, Yr Hendre, Llanbed | 5.00 |
| Mr. Alun Jones, Glanrhyd, Parcyrhos | 3.50 |
| Mrs. Llinos James, Parcyrhos House, Cwmann | 3.50 |
| Mrs. M. L. Jones, Bryn Shop, Cwmann | 3.50 |
| Mr. D. Islwyn Edwards, Cwmcanol, Cwmann | 3.50 |
| Mrs. Adeline Williams, Bryn Eiddig, Cwmann | 3.50 |
| Teulu Manglas, Cwmann | 3.50 |
| Mr. John Jones, 122, Heol Abergwili, Caerfyrddin | 3.50 |
| Mr. E. T. Evans, 6, Nash Avenue, Caerfyrddin | 3.50 |
| Mrs. M. H. Hamilton, 5, Grosvenor Court, Upper Norwood | 3.50 |
| Mrs. W. M. James, 28, Llwynonn Road, Clydach | 3.50 |
| Cyngor Cymuned Llansawel | 20.00 |
| Cyngor Cymuned Pencarreg | 30.00 |